

Astudiaeth Achos: Tîm Partneriaeth ac Ymwneud Abertawe ac Ysgol Pen y Bryn

Dull Gweithredu ar sail Partneriaeth

Mae fîm Partneriaeth ac Ymwneud awdurdod lleol Abertawe ac Ysgol Pen y Bryn yn Abertawe wedi sefydlu partneriaeth i rannu sgiliau a helpu i ddatblygu dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar draws yr awdurdod. Bu fîm yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'r ysgol i wreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, gan ddatblygu hyfforddiant o amgylch egwyddorion Addysg Y Ffordd Gywir, a chefnogi staff yn yr ysgol i hunanasesu eu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant.

Trwy hunanasesu gwelwyd bod cyfranogiad yn gryf yn yr ysgol, a rhoddodd hynny gyfle i dîm yr awdurdod lleol ddatblygu eu sgiliau eu hunain wrth gefnogi cyfranogiad effeithiol plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Datblygu ymarfer cyfranogiad

Dros gyfnod o nifer o fisoedd, bu fîm yr awdurdod lleol yn ymweld â'r ysgol unwaith yr wythnos i arsylwi arfer cyfranogiad yn yr ysgol, gan gynnwys gweithgareddau cyfranogiad dieiriau, gweithgareddau dysgu yn y gwersi a chyngor yr ysgol.

Dyma sut mae Katie Spendiff, Cydlynnydd Hawliau Plant, yn egluro'r sefyllfa, 'ar y cychwyn roedd yr arsylwi'n teimlo braidd yn anghyfforddus oherwydd doedd y plant a'r bobl ifanc ddim wir yn gwybod pwy oedden ni. Mae'r ysgol yn cynnal sesiynau brecwast bob dydd ac fe drefnon ni y bydden ni'n dod i un o'r rhain bob wythnos. Roedd un rheol – allen ni ddim gwneud unrhyw ymgynghori ffurfiol nac ymgysylltu yn y sesiwn hon. Holl bwrpas y sesiwn oedd treulio amser yn anffurfiol gyda'r plant – buon ni'n rhannu brecwast ac yn sgwrsio.'

'Trwy'r sgwrsio achlysurol yma daeth y plant i'n nabod ni, a rhannu rhai o'u dyheadau a'u pryderon. Fe ddywedson nhw eu bod yn poeni am wyliau hir yr haf oherwydd eu bod nhw'n gweld eisiau trefn ddyddiol yr ysgol, eu ffrindiau a chefnogaeth eu cyfoedion. Oherwydd bod plant yn teithio o bob rhan o'r awdurdod i'r ysgol, dydyn nhw'n aml ddim yn byw'n agos at eu ffrindiau. Maes arall oedd yn destun pryder i bobl ifanc hŷn oedd eu cynllunio ar gyfer eu dyfodol, roedden nhw eisiau mwy o brofiadau a gwybodaeth i wneud penderfyniadau ystyrlon am eu camau nesaf.'

Rhaglen haf yr awdurdod lleol

'Llywiodd hyn ein meddyliau ynghylch y gweithgaredd haf rydyn ni'n ei gynig ar draws y sir. Gan ddefnyddio cyllid ar lefel yr awdurdod, ein bwriad fydd cynnal gweithgareddau yn yr ysgol un diwrnod yr wythnos yn ystod gwyliau'r haf. Bydd y gweithgareddau'n canolbwyntio ar gynlluniau i'r dyfodol, ac fe'u dewiswyd yn uniongyrchol gan y bobl ifanc. Mae rhai wedi dewis gweithgareddau cysylltiedig â gyrfaedd, ac eraill weithgareddau ar gyfer eu bywyd ehangach, megis coginio neu arddio. Rydyn ni'n peilota hyn dros yr haf, ac yn gweithio gyda'r gymuned i wneud hynny, felly gallai gael ei hestyn yn ehangach os yw'n llwyddiannus.'

'Mae'r prosiect yma wedi newid sut mae ein fîm yn edrych ar gyfranogiad. Rydyn ni wedi adfyfrio bod angen i ni sicrhau mwy o le ar gyfer cyfranogiad cymdeithasol a lleihau teimladau o fod yn ynysig, yn arbennig ar ôl y pandemig. Mae treulio amser yn meithrin perthnasoedd a chreu manau diogel gyda'r plant a'r bobl ifanc yn hanfodol bwysig. Mae angen i ni werthfawrogi amser gyda phlant a phobl ifanc, a bod yno ar eu cyfer, ac rydyn ni'n edrych ar wneud mwy o waith ar brosiect cyfranogiad, gyda meithrin perthynas yn ffocws, yn hytrach na digwyddiadau

ymgysylltu untro. Bydd hynny wedyn yn rhoi sylfaen gryfach i ni ar gyfer gwaith cyfranogiad dinesig yn ogystal.'